Manylion Pellach
Adnoddau Dynol

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Further Particulars
Human Resources

Cyfarwyddwr Canolfan Y Celfyddydau Aberystwyth
Canolfan Y Celfyddydau Aberystwyth
Graddfa 9: £50,618 - £56,950 y flwyddyn

I hyrwyddo gweithlu hyblyg, bydd y Brifysgol yn ystyried ceisiadau gan unigolion sy'n ceisio am swydd gyda threfniadau gweithio llawn amser, rhan amser, rhannu swydd, neu yn ystod y tymor yn unig.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn dymuno penodi Cyfarwyddwr ysbrydoledig ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol y weledigaeth a'r penderfyniad i arwain Canolfan y Celfyddydau, gan ymestyn ei llwyddiant a'i henw da fel un o'r lleoliadau gorau ym Mhrydain ar gyfer y celfyddydau.

Y Cyfarwyddwr fydd yn arwain cyfeiriad celfyddydol a datblygiad Canolfan y Celfyddydau yn y dyfodol. Mae 50fed pen-blwydd Canolfan y Celfyddydau ar y gorwel yn 2022, felly mae'r dyfodol yn gyffrous ac rydym yn awyddus i glywed gan unigolion â'r uchelgais, y brwdfrydedd, y profiad a'r gallu i arwain Canolfan y Celfyddydau y tu hwnt i'r garreg filltir hon. Mae'r swydd yn cynnig y cyfle i ddatblygu ymhellach enw da a phwysigrwydd canolfan y celfyddydau i bobl Cymru, a datblygiad y celfyddydau yng Nghymru.

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yw lleoliad mwyaf blaenllaw'r Celfyddydau yng Nghanolbarth Cymru ac un mae'n o'r mannau creadigol mwyaf cyffrous ym Mhrydain.

Mae gwaith y ganolfan yn cwmpasu'r holl ffurfiau celf, gyda chymysgedd helaeth ac eclectig o berfformiadau, arddangosfeydd, ffilmiau, gwyliau, cyfnodau preswyl i artistiaid, gwaith wedi'i guradu/cynyrchiadau mewnol (proffesiynol a chymunedol) a'r rhaglen Dysgu Creadigol fywiocaf yng Nghymru. Gyda chynulleidfa ffyddlon a chefnogol a thîm o staff profiadol ac ymroddedig, darparwn amgylchedd sy'n agored i ddatblygu prosiectau newydd a meithrin partneriaethau newydd, yn seiliedig ar gred greiddiol fod y celfyddydau o bwys.

Mae'r cynllun strategol cyfredol yn cynnig gweledigaeth glir ar gyfer y sefydliad:

Credwn yng ngrym y celfyddydau i drawsnewid y gymdeithas ac i newid a chyfoethogi bywydau, i ddod o hyd i ffyrdd newydd o feddwl a byw, i rannu a dangos ein potensial fel pobl.

Credwn fod y celfyddydau yn agor i bawb, o'r ifainc i'r hen, gyfleoedd i greu: â meddyliau, dwylo, lleisiau a chyrff; i gynnig dyfodol di-ben-draw o bosibiliadau.

Gyda gwerthoedd Canolfan y Celfyddydau gallwn wneud cyfraniad pwysig a gwerthfawr i'r Celfyddydau, i'r dref, y rhanbarth, i Gymru, Prydain, ac yn rhyngwladol:

Uchelgeisiol Arloesol Canolbwyntio ar Bobl Dwyieithog Cyfrifol Rhyngwladol Seilir ar y Gymuned Cydweithredol

Athena SWAN Bronze Award
EQUALITY CHARTER
CYRRAEDD Y NOD CORPORATE HEALTH STANDARD ARIAN · SILVER
Cymru Iach ar Waith Healthy Working Wales
POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE
Stonewall HYRWYDDWYR AMRYWIAETH DIVERSITY CHAMPIONS CYMRU

Mae Canolfan y Celfyddydau, a leolir yn harddwch Canolbarth Cymru, yng nghanol campws Penglais Prifysgol Aberystwyth, yn croesawu dros 700,000 o ymwelwyr bob blwyddyn ac yn gwneud cyfraniad pwysig i'r rhanbarth.

Mae gennym ymrwymiad cryf i gefnogi a hyrwyddo gwaith gan gwmnïau ac artistiaid o Gymru, sy'n gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd, o fewn i gyd-destun rhyngwladol. Dathlwn ein lleoliad mewn cymuned ddwyieithog sy'n gysylltiedig â phrifysgol ryngwladol. Mae Aberystwyth yn gyrchfan bwysig i ymwelwyr â'i golygfeydd anhygoel dros Fae Ceredigion. Cydweithiwn â chymunedau lleol, staff a myfyrwyr y Brifysgol, ac ymwelwyr i estyn croeso cynnes i berfformwyr, artistiaid, cyfranogwyr ac ymwelwyr.

Gellir gwneud ymholiadau anffurfiol drwy gysylltu ag yr Athro Tim Woods ar tww@aber.ac.uk.

Cyf: AC.17.1455
Dyddiad Cau: 24 Medi 2017
Dyddiad Cyfweld: 13 Hydref 2017 (trwy'r dydd)

Bydd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i wneud cyflwyniad yn ystod y bore i aelodau staff o'r Ganolfan.

Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio, ewch i http://jobs.aber.ac.uk.

Sefydliad Dwyieithog sy'n gweithredu Cynllun laith Gymraeg ac yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal.

FEL ARFER FE BENODIR I SWYDDI O FEWN 4-8 WYTHNOS WEDI'R DYDDIAD CAU.

Manylion Pellach
Adnoddau Dynol

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Further Particulars
Human Resources

Aberystwyth Arts Centre Director
Aberystwyth Arts Centre
Grade 9: £50,618 - £56,950 per annum

To promote a flexible workforce, the University will consider applications from individuals seeking full time, part time, job share, or term time only working arrangements.

Aberystwyth University is seeking to appoint an inspirational Director of Aberystwyth Arts Centre. The ideal candidate will have the vision and drive to lead the Arts Centre, building on its success and reputation as one of the UK's leading venues for the Arts.

The Director will lead the artistic direction and future development of the Arts Centre. With the Arts Centre's 50th anniversary approaching in 2022, the future is exciting and we are keen to hear from individuals with the aspiration, enthusiasm, experience and ability to lead the Arts Centre beyond that landmark. The role offers the opportunity to further enhance the reputation and importance of the arts centre for the people of Wales, and for the development of the arts in Wales.

Aberystwyth Arts Centre is the flagship venue for the Arts in Mid Wales and one of the most exciting creative hubs in the UK.

The centre's work extends across all art forms with an extensive and eclectic mix of performances, exhibitions, film screenings, festivals, artist residencies, curated work/in-house productions (both professional and community) and the largest and most vibrant Creative Learning programme in Wales. With a loyal and supportive audience and an experienced and committed staff team, we provide an environment that is open to developing new projects and exploring new partnerships, with a core belief that the arts matter.

The current strategic plan presents a clear vision for the organisation:

We believe in the power of the arts to transform society and to change and enrich lives, to envisage new ways of thinking and being, to share and show our potential as human beings.

We believe the arts opens to everyone, from young to old, opportunities to create: with minds, hands, voices and bodies; offering an infinite future of possibilities.

The Arts Centre's values enable an important and valued contribution to the Arts for the town, the region, Wales, the UK and internationally:

Ambitious Innovative People Centred Bilingual Responsible
International Community Based Collaborative

Set in beautiful Mid Wales, and based at the centre of Aberystwyth University's Penglais campus, the Arts Centre welcomes over 700,000 visitors a year and makes a unique contribution to the region.

EQUALITY CHARTER Athena SWAN Bronze Award

CYRRAEDD Y NOD CORPORATE HEALTH STANDARD ARIAN · SILVER Cymru Iach ar Waith Healthy Working Wales

POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE

Stonewall HYRWYDDWYR AMRYWIAETH DIVERSITY CHAMPIONS CYMRU

We have a strong commitment to supporting and encouraging work from and by Welsh companies and artists, working in both Welsh and English, set within an international context. We celebrate being located within a bilingual community and linked to an international university. Aberystwyth is a major tourist destination with incredible views across Cardigan Bay. We work with our local communities, University staff and students, and visitors to the region providing a warm welcome to performers, artists, participants and visitors.

To make an informal enquriy, please contact Professor Tim Woods at tww@aber.ac.uk.

Ref: AC.17.1455
Closing Date: 24 September 2017
Interview Date: 13 October 2017 (all day)

Shortlisted candidates will be invited to give a presentation during the morning to members of Arts Centre staff.

For information and to apply, please go to http://jobs.aber.ac.uk.

We are a Bilingual Institution which operates a Welsh Language scheme and is committed to Equal Opportunities.

APPOINTMENTS ARE NORMALLY MADE WITHIN 4-8 WEEKS OF THE CLOSING DATE.

Manylion Pellach **(English below)**

Y mae'r disgrifiad swydd hwn yn amodol ar ei adolygu a'i ddiwygio yng ngoleuni anghenion cyfnewidiol y Brifysgol, i ddarparu cyfleoedd datblygu priodol ac/neu i ychwanegu dyletswyddau ychwanegol eraill.

Canolfan y Celfyddydau

Canolfan y Celfyddydau arobryn Aberystwyth yw'r ganolfan gelfyddydau fwyaf a mwyaf deinamig yng Nghymru ac mae'n cael ei chydnabod yn lleoliad cenedlaethol blaenllaw i'r Celfyddydau. A hithau'n rhan annatod o'r Brifysgol, mae Canolfan y Celfyddydau yn parhau i ddatblygu ei rôl fel esiampl ddisglair o ragoriaeth greadigol, sy'n darparu cyfleoedd unigryw i gyfoethogi bywydau pobl Aberystwyth, y Canolbarth a'r tu hwnt. Mae'r Ganolfan yn gwneud cyfraniad hanfodol ac egnïol tuag at fywyd celfyddydol Cymru a'i hunaniaeth ddiwylliannol yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd.

Mae Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn gwneud cyfraniad unigryw ym maes y celfyddydau yng Nghymru:

- 40 mlynedd o ragoriaeth yn ei darpariaeth gelfyddydol, yn rhanbarthol a chenedlaethol;
- O'i lleoliad yn y Brifysgol, mae cyfraddau cyfranogi o blith y gymuned yn unigryw o uchel;
- Yn cyfoethogi'r celfyddydau a'r gwyddorau mewn awyrgylch dwyieithog cadarnhaol;
- Yn arwain y ffordd i ddarpariaeth y celfyddydau yng Nghymru a'r tu hwnt;
- Yn ymroddedig i gynyddu a meithrin cyswllt y cyhoedd â'r celfyddydau, drwy bartneriaethau â mentrau cenedlaethol allweddol.

Sefydlwyd y Ganolfan ar ddechrau'r 1970au, a datblygwyd tair agwedd allweddol er mwyn i Ganolfan y Celfyddydau allu ffynnu.

Yn gyntaf, dull arloesol o ddarparu rhaglen gelfyddydol, yn enwedig trwy bartneriaethau; yn ail, mae wedi ymwreiddio yn y gymuned trwy ei rhaglen eithriadol ar gyfer annog pobl i gyfranogi o'r celfyddydau a meithrin cyswllt â'r gymuned; ac yn drydydd, trwy gydnabod bod sicrhau ein bod yn ennill cymaint o incwm ag y gallwn yn egwyddor hanfodol i fod yn gynaliadwy, o safbwynt ariannol a chelfyddydol.

Mae Canolfan y Celfyddydau yn hyderus ac uchelgeisiol o ran ei gallu i ddatblygu ffynonellau incwm newydd. Mae wedi sicrhau buddsoddiadau o bwys dros y blynyddoedd mewn cyfalaf a phrosiectau. Ym mis Ebrill 2000, cwblhawyd gwaith ailddatblygu gwerth £4.3 miliwn, sydd wedi ennill gwobrau, gyda chymorth arian y Loteri drwy Gyngor Celfyddydau Cymru a chymorth ariannol Phrifysgol Aberystwyth. Yn 2009, cwblhawyd datblygiad arobryn arall, lle y codwyd 18 Stiwdio Greadigol a ddyluniwyd gan Thomas Heatherwick. Mae'r rhain yn cynnig gweithleoedd unigryw i artistiaid, crefftwyr, a busnesau yn y celfyddydau creadigol.

O fewn i'r adeilad y mae Theatr y Werin (300 o seddau), Neuadd Fawr (1250 o seddau), sinema (110 o seddau), stiwdio (100 o lleoedd); prif orielau arddangos; ardaloedd dysgu creadigol pwrpasol yn cynnwys stiwdios ar gyfer dawns, crochenwaith, ystafell dywyll, labordy digidol, ystafelloedd ymarfer ac ystafell gerdd; mannau masnachol yn cynnwys caffis, barrau, siop lyfrau a siop grefftau. Mae Canolfan y Celfyddydau ar agor saith diwrnod yr wythnos drwy gydol y flwyddyn ac yn cynnig rhaglen lawn a bywiog o theatr, dawns, cerddoriaeth, arddangosfeydd, ffilm, llenyddiaeth, comedi, a nifer mawr o ddosbarthiadau a chyrsiau perfformio a chelfyddydau gweledol y byddai dinasoedd llawer mwy nag Aberystwyth yn cenfigennu wrthynt. Mae'r rhaglen brysur iawn yn ystod misoedd yr haf yn cynnwys gwyliau rhyngwladol a chynhyrchiad theatr mawr ar gyfer gwyliau'r haf, sy'n apelio at ein cynulleidfa graidd yng Nghanolbarth Cymru yn ogystal â'r farchnad fawr o ymwelwyr a thwristiaid.

Mae Canolfan y Celfyddydau yn rhan o Athrofa'r Celfyddydau a Dyniaethau ym Mhrifysgol Aberystwyth, sy'n cynnig cyfleoedd newydd i gydweithredu ar draws y Brifysgol, gan ddatblygu cynulleidfaoedd a chyfranogiad myfyrwyr, ac atgyfnerthu ymhellach rhan flaenllaw Canolfan y Celfyddydau wrth ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru.

Mae Canolfan y Celfyddydau yn derbyn arian cyhoeddus sylweddol gan Gyngor Celfyddydau Cymru, am ei bod yn un o'r sefydliadau sy'n derbyn arian ganddo.

Llywodraethu

Un o adrannau Prifysgol Aberystwyth yw Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth ac mae Cyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau yn atebol i Gyfarwyddwr yr Athrofa, sydd yn atebol i'r Is-Ganghellor.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

Gweledigaeth a Strategaeth Gelfyddydol

- Datblygu a diffinio gweledigaeth gelfyddydol i Ganolfan y Celfyddydau;
- Trosi'r weledigaeth gelfyddydol yn rhaglen ysbrydoledig a deinamig o weithgarwch;
- Datblygu a chyflawni Cynllun Strategol Canolfan y Celfyddydau, gan sicrhau cysylltiad â'r prif randdeiliaid;
- Datblygu a chyflawni strategaeth uchelgeisiol i gefnogi a meithrin artistiaid a chwmnïau o Gymru, gan barchu'r awyrgylch dwyieithog;
- Datblygu a chyflawni strategaeth uchelgeisiol i weithio gydag artistiaid a chwmnïau yn rhyngwladol;
- Datblygu cyfleoedd i fanteisio ar y cysylltiad â staff academaidd, gan ryngweithio ag unedau academaidd a chorff myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth trwy ddulliau a ddefnyddir eisoes a chwilio am ddulliau newydd o wneud hynny.

Ymgysylltu â Phartneriaethau

- Gwella enw da'r Ganolfan fel hyrwyddwr ymgysylltu â'r cyhoedd ym maes y celfyddydau;
- Ymestyn strategaethau datblygu ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd y ganolfan, gan feithrin cysylltiadau a phartneriaethau yng nghymunedau canolbarth Cymru;
- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer cydweithredu creadigol, yn y Brifysgol ac yn allanol;
- Datblygu strategaeth o gydweithio a datblygu ar draws y Brifysgol gan nodi cyfleoedd i'r myfyrwyr a'r staff ymgysylltu â rhaglen gelfyddydol Canolfan y Celfyddydau;
- Datblygu a chyflawni partneriaethau strategol i ddarparu arweiniad celfyddydol yng nghyd-destun agendâu cymdeithasol allweddol;
- Meithrin cysylltiadau cryf i atgyfnerthu ymhellach enw da Canolfan y Celfyddydau mewn rhwydweithiau celfyddydau cenedlaethol a rhyngwladol;
- Bod yn atebol i, ac ymgysylltu'n frwd, â Bwrdd Ymgynghorol Canolfan y Celfyddydau;

Rhaglennu

- Trefnu rhaglen hygyrch a pherthnasol o safon uchel ar draws holl ystod cyfleusterau Canolfan y Celfyddydau ac ar draws holl ffurfiau a gweithgareddau'r celfyddydau;
- Datblygu a hyrwyddo rhaglen gelfyddydol y Ganolfan gan sicrhau ei bod yn cyrraedd yr amcanion strategol y cytunwyd arnynt ac a bennwyd drwy ei phartneriaeth ariannol â Chyngor Celfyddydau Cymru;
- Sicrhau bod strategaeth y Brifysgol o ran yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn sail i'r rhaglenni ar bob lefel;
- Arwain a dylanwadu ar raglen gelfyddydol sy'n flaenllaw ym maes Datblygiad Cynulleidfaoedd ar gyfer y celfyddydau, ac sy'n hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi ym mhob sector o'r gymuned;
- Trwy bartneriaethau ac ymgysylltu, sicrhau bod Canolfan y Celfyddydau yn cymryd rhan mewn prosiectau rhanbarthol a lleol sy'n cyflenwi cynllun strategol Canolfan y Celfyddydau er mwyn darparu arbenigedd a chefnogaeth a gweithredu fel sail i ddatblygiadau yn y dyfodol;
- Cydweithio'n agos ag arbenigedd Cyngor Celfyddydau Cymru a'r holl brif bartneriaid/rhanddeiliaid eraill, i ddatblygu cyfleusterau a rhaglen Canolfan y Celfyddydau ymhellach er mwyn cyflenwi'r cynllun strategol;

Rheoli Cyllid ac Adnoddau

- Dyrannu adnoddau a datblygu a chyflawni targedau ariannol gyda chyllidebau wedi'u cynllunio'n eglur, ar y cyd ag Adran Gyllid y Brifysgol;
- Parhau i ddatblygu, nodi a monitro'r ffactorau llwyddo hanfodol sy'n angenrheidiol i ddatblygu effeithiolrwydd a chynaliadwyedd Canolfan y Celfyddydau yn y tymor hir;
- Datblygu a chyflwyno cynlluniau a chyllidebau blynyddol a 3-5 blynedd i'r Brifysgol fel rhan o'r drefn gynllunio flynyddol;
- Datblygu a chyflwyno strategaeth codi arian eglur, gan wneud y gorau o weithgarwch y Ganolfan trwy ddenu arian allanol;
- Cyflawni dyletswyddau Canolfan y Celfyddydau fel sefydliad sy'n cael ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Ceredigion;
- Arwain a datblygu partneriaethau newydd a ffrydiau incwm i gyfrannu at ddatblygu'r Ganolfan yn y tymor canolig a'r tymor hir;
- Cydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol i sefydlu strategaeth hyfyw a chytunedig o adnewyddu a datblygu cyfalaf ar gyfer Canolfan y Celfyddydau;

Rheoli Staff

- Arwain a rheoli tîm staff Canolfan y Celfyddydau, gan ysbrydoli, cefnogi ac annog hyrwyddo gwerthoedd craidd;
- Rheoli perfformiad staff a nodi anghenion hyfforddi a datblygu;
- Rheoli risg a sicrhau bod trefniadau yn eu lle sy'n cydymffurfio â threfniadau'r Brifysgol a gofynion deddfwriaethol, er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles ymwelwyr â Chanolfan y Celfyddydau;
- Arwain diwylliant o gyflenwi profiad rhagorol i'r cwsmer sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd o bob oed, cefndir a diwylliant;
- Arwain ar gyflenwi Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Canolfan y Celfyddydau er mwyn sicrhau bod pawb – staff, perfformwyr, artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd – yn cael eu cefnogi a'u croesawu yng Nghanolfan y Celfyddydau;
- Datblygu Strategaeth Farchnata a Chyfathrebu effeithiol a sicrhau ei bod yn cael ei rhoi ar waith;
- Arwain yn ôl yr angen ar ddyletswyddau i ddiogelu staff sy'n ymgysylltu ag unrhyw weithgaredd yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth neu ar ei rhan.

Cyfrifoldebau Ychwanegol

- Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau iechyd a diogelwch sy'n briodol i'r swydd.
- Bod yn ymroddedig i Bolisi Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb y Brifysgol, ynghyd â dealltwriaeth ynglŷn â sut y mae'n gweithredu o fewn cyfrifoldebau'r swydd.
- Bod yn ymroddedig i'ch datblygiad eich hun a datblygiad eich staff, drwy ddefnyddio proses 'datblygu staff ac adolygu perfformiad' y Brifysgol yn effeithiol.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill a ystyrir yn rhesymol.

Manylion Person

Hanfodol
Cymwysterau • Addysg hyd at radd gyntaf o leiaf, ac yn ddelfrydol mewn maes astudio perthnasol.
Gwybodaeth a Profiad • Nodweddion profedig o arwain amgylchedd celfyddydol rhyngddisgyblaethol mawr. • Profiad o weithio yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yn y celfyddydau. • Profiad sylweddol o reoli ar lefel uwch mewn amgylchedd Celfyddydau, yn cynnwys rheoli staff a chyllidebau. • Profiad llwyddiannus blaenorol o reoli cyllidebau mawr a chymhleth, ac o gyflwyno ceisiadau grantiau mawr yn llwyddiannus am arian cyfalaf, incwm a phrosiectau. • Profiad o ddatblygu ffrydiau incwm masnachol, i gyfrannu at gynaliadwyedd a gwydnwch sefydliad celfyddydol. • Cysylltiadau cryf â sefydliadau a rhwydweithiau eraill yn y celfyddydau.
Sgiliau • Gallu i ymgysylltu'n gynhyrchiol ac yn briodol gyda rhandeiliaid allweddol. • Dealltwriaeth gadarn a gwerthfawrogiad o ddiwylliant Cymru a phwysigrwydd y Gymraeg i Gymru a'i phobl.
Iaith Gymraeg • Lefel Cymraeg Llafar (siarad): C1 neu dystiolaeth i ddangos ymrwymiad parhaus i ddysgu Cymraeg i'r lefel hon. • Lefel Cymraeg Ysgrifenedig: C1 neu dystiolaeth i ddangos ymrwymiad parhaus i ddysgu Cymraeg i'r lefel hon.

<u>Lefel Cymraeg Llafar (siarad): C1</u>

- mynegi fy hunan yn rhugl ac yn ddigymell.
- defnyddio iaith yn hyblyg ac yn effeithiol at ddibenion cymdeithasol a phroffesiynol, gan gyfrannu'n hyderus at gyfarfodydd a chyflwyniadau ar lafar.
- ffurfio syniadau a barnau, gan sicrhau bod fy nghyfraniadau'n berthnasol i siaradwyr eraill.
- ymateb yn briodol i sefyllfaoedd diwylliannol a chymdeithasol gwahanol.
- cyflwyno disgrifiadau clir a manwl o bynciau cymhleth gan gyflwyno is-themâu, gan ddatblygu pwyntiau penodol, ynghyd â chloi'r cyflwyniad â chasgliad priodol.

<u>Lefel Cymraeg Ysgrifenedig: C1</u>

- ysgrifennu testunau wedi'u strwythuro'n glir, ynghyd â mynegi safbwyntiau am gyfnod hir.
- ysgrifennu esboniadau manwl ar bynciau cymhleth ar ffurf e-bost, llythyr, traethawd neu adroddiad, gan danlinellu'r materion perthnasol.
- ysgrifennu gwahanol fathau o destunau mewn arddulliau sy'n briodol i'r gynulleidfa sydd mewn golwg.

<u>Further Particulars</u> (Cymraeg uchod)

This job description is subject to review and amendment in the light of the changing needs of the University, to provide appropriate development opportunities and/or the addition of any other reasonable duties.

<u>About the Arts Centre</u>

The award winning Aberystwyth Arts Centre is Wales' largest and most dynamic arts centre and is recognised as a national flagship for the Arts. As an integral part of the University, the Arts Centre continues to develop its role as a beacon of creative excellence providing unique and rewarding opportunities for the people of Aberystwyth, Mid Wales and beyond. The Centre is a vital and energetic contributor to Welsh artistic life and cultural identity in both the Welsh and English languages.

Aberystwyth Arts Centre makes a distinctive contribution to the arts in Wales:

- 40 years of excellence in regional and national arts provision;
- University located with uniquely high levels of community engagement and participation;
- Enrichment of the arts and sciences in a positive bilingual environment;
- Leading the way in arts provision in Wales and beyond;
- Committed to the enhancement of public engagement with the arts in partnership with key national initiatives.

Established in the early 1970s, three key strands have been developed to enable the Arts Centre to thrive.

Firstly, an innovative approach to artistic programming, particularly through partnerships; secondly, embedding itself within the community through its outstanding programme of arts participation and community engagement; and thirdly, recognising the principle of maximising earned income as vital in delivering financial and artistic sustainability.

The Arts Centre is confident and ambitious in its ability to develop new sources of income. It has secured major capital and project investment over the years. A £4.3 million award winning redevelopment was completed in April 2000, supported by Arts Council of Wales Lottery and Aberystwyth University. In 2009 an award winning complex of 18 Creative Studios designed by Thomas Heatherwick was completed, offering unique spaces for artists, craft-workers and creative arts businesses.

Within the venue is Theatr y Werin (capacity 300), Great Hall (capacity 1250), cinema (capacity 110), studio (capacity 100); major exhibition galleries; purpose built creative learning spaces including dance studios, pottery, dark room, digilab, rehearsal rooms and music room; trading outlets including cafes, bars, bookshop and craftshop. The Arts Centre is open seven days a week throughout the year offering a full and vibrant programme of theatre, dance, music, exhibitions, film, literature, comedy and a wide range of performing and visual arts classes and courses that would be the envy of many cities far larger than Aberystwyth. The very busy programme over the summer months includes international festivals and a large scale summer season theatre production, to appeal to the core Mid Wales audience as well as the large visitor and tourist market.

The Arts Centre is part of the Institute of Arts and Humanities (IAH) at Aberystwyth University, providing fresh opportunities for collaboration across the University, developing the student audience and participation, and further strengthening the Arts Centre's leading role in the development of the arts in Wales.

Athena SWAN Bronze Award
EQUALITY CHARTER
CYRRAEDD Y NOD CORPORATE HEALTH STANDARD ARIAN · SILVER
Cymru Iach ar Waith Healthy Working Wales
POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE
Stonewall HYRWYDDWYR AMRYWIAETH DIVERSITY CHAMPIONS CYMRU

The Arts Centre receives substantial public funding from the Arts Council of Wales as one of its revenue-funded organisations.

Governance

Aberystwyth Arts Centre is a department of Aberystwyth University and the Arts Centre Director reports to the Institute Director, who in turn reports to the Vice-chancellor.

Main Duties and Responsibilities

Artistic Vision and Strategy

- Develop and articulate an artistic vision for the Arts Centre;
- Translate the artistic vision into an inspiring and dynamic programme of activity;
- Develop and deliver the Arts Centre's Strategic Plan, ensuring connection with key stakeholders;
- Develop and deliver an ambitious strategy to support and nurture artists and companies from Wales, respectful of a bilingual environment;
- Develop and deliver an ambitious strategy to work with artists and companies internationally;
- Develop opportunities for capitalising on the relationship with academic staff and pursue existing, and identify new, means of interacting with academic units and the student body within Aberystwyth University.

Engagement and Partnerships

- Enhance the Centre's reputation as a champion of public engagement in the arts;
- Extend the centre's audience development and engagement strategies, developing relationships and partnerships within the mid Wales communities;
- Seek out opportunities for creative collaboration, within and without the University environment;
- Develop a strategy of co-working and development across the University identifying opportunities for the student and staff body to engage with the Arts Centre's artistic programme;
- Develop and deliver strategic partnerships to deliver artistic leadership in the context of key social agendas;
- Build strong relationships to further enhance the Arts Centre's reputation within national and international arts networks;
- Report to, and engage actively with, the Arts Centre's Advisory Board;

Programming

- Curate a high quality, relevant and accessible programme across the full range of the Arts Centre's facilities and across all art forms and activities;
- Develop and articulate the Centre's artistic programme ensuring it reaches agreed strategic goals determined through its funding partnership with the Arts Council of Wales;
- Ensure that the University's strategy in respect of Welsh culture and language informs programming at all levels;
- Guide and influence an artistic programme which leads on Audience Development for the arts, and which promotes opportunities for participation from all sectors of the community;

- Through partnerships and engagement, ensure the Arts Centre's participation in regional and local projects which deliver the Arts Centre's strategic plan in order to offer expertise and support and inform future developments;
- Work closely with the expertise of the Arts Council of Wales and all other key partners/stakeholders, to further develop the Arts Centre facilities and programme in order to deliver the strategic plan;

Financial and Resource Management

- Allocate resources and develop and deliver on financial targets with clearly planned budgets, in conjunction with the University's Finance Department;
- Continue to build, identify and monitor the critical success factors necessary to build the long-term effectiveness and sustainability of the Arts Centre;
- Develop and present annual and 3-5 year plans and budgets to the University as part of the annual planning round process;
- Develop and deliver a clear fundraising strategy, maximising the Centre's activity through attracting external funding;
- Fulfil the Arts Centre's obligations as a revenue funded organisation of the Arts Council of Wales and Ceredigion Council;
- Lead and develop new partnerships and income streams to contribute towards the development of the Centre in the medium to long term;
- Work closely with key stakeholders to establish an agreed and viable strategy of renewal and capital development for the Arts Centre;

Staff Management

- Lead and manage the Arts Centre staff team, motivating, supporting and encouraging the promotion of core values;
- Manage staff performance and identify training and development needs;
- Manage risk and ensure that processes are in place that are compliant with University processes and legislative requirements, to ensure the health, safety and welfare of visitors to the Arts Centre;
- Lead a culture of delivering an excellent customer experience which reaches out to audiences of all ages, backgrounds and cultures;
- Lead on the delivery of the Arts Centre Equalities and Diversity Strategy to ensure that everyone – staff, performers, artists, participants and audiences – are supported and welcomed within the Arts Centre;
- Develop an effective Marketing and Communications Strategy and ensure its operational delivery;
- Lead as required on any safe-guarding obligations on the part of staff engaging in any activity within or on behalf of Aberystwyth Arts Centre.

Additional Responsibilities

- To undertake health and safety duties and responsibilities appropriate to the post.
- To be committed to the University's Equal Opportunities and Diversity Policy, together with an understanding of how it operates within the responsibilities of the post.
- To be committed to your own development and that of your staff through the effective use of the University's staff development and performance review.
- Any other duties reasonably requested.

Person Specification

Essential
Qualifications • Education to at least first degree level, ideally in a relevant area of study
Knowledge and Experience • Proven qualities of leadership in a large-scale multi-disciplinary arts environment. • Experience of working nationally and internationally within the arts. • Significant experience of management at a senior level in an Arts environment, including the management of staff and budgets. • A proven track-record in managing large and complex budgets, and in submitting successful large grant applications for major capital, revenue and project funding. • Experience of developing commercial income streams, to contribute towards the sustainability and resilience of an arts organisation. • Strong links and contacts with other arts organisations and networks.
Skills • The ability to engage productively and appropriately with key stakeholders. • Sound understanding and appreciation of Welsh culture and the importance of the Welsh language to Wales and its people.
Welsh Language • Oral (spoken) Welsh Level: C1 *or* ***evidence*** *to demonstrate an on-going commitment to learn Welsh to this level.* • Written Welsh Level: C1 *or* ***evidence*** *to demonstrate an on-going commitment to learn Welsh to this level.*

Welsh Language Level Oral: C1

The ability to:
- express myself fluently and unprompted.
- use language flexibly and effectively for social and professional purposes, and contribute confidently to meetings and oral presentations.
- formulate ideas and opinions, and ensure that my contributions are relevant to others.
- respond appropriately to different cultural and social situations.
- present clear detailed descriptions of complex subjects, integrating sub-themes, developing particular points, and rounding off with an appropriate conclusion.

Welsh Language Level Written: C1

The ability to:
- write clear well-structured texts, expressing points of view at some length.
- write detailed explanations of complex subjects in the form of email, letter, essay or report, underlining the salient issues.
- write different types of texts in styles that are appropriate to the reader in mind.